

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 9fed Ionawr, 2017, yn Ffestri Capel Hebron, Llangwnnadl o 7.30 p.m. hyd 8.25 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys H. Evans (Cadeirydd)
 Y Cynghorydd Carys E. Williams (Is-Gadeirydd)
 Y Cynghorwyr S.R. Jones, Llinos Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Harry Richards, Glenys Williams
 Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Glyn Roberts, Gillian Walker

77. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.

Deallwyd fod Y Cynghorydd Glyn Roberts wedi cael ei gipio i'r Ysbyty fore'r Cyngor a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan.

78. YMWELIAD DR. O.G. MORRIS, MEDDYGFA RHYDBACH

Croesawodd y Cadeirydd Dr. O.G. Morris o Feddygfa Rhydbach, Botwnnog, atom i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd Dr. Morris fod dwy flynedd wedi pasio er pan iddo gyfarfod y Cyngor o'r blaen. Datgelodd y bu bron i'r practis gau i lawr ym 2015/2016 ond pethau wedi troi er gwell yn ystod yr haf diwethaf. Penodwyd Mr. David Shaw, fel Rheolwr y Practis ac hefyd wynebau newydd yn y staff.

O berthynas i'r:

Fferyllfa – oherwydd fod y syrjeri wedi ei symud i Fotwnnog ar Nos Wener, yn anffodus nid oes Fferyllydd ar gael y noson honno. Dywedodd eu bod yn edrych i fewn i hyn.

Apwyntiadau – mewn argyfwng caiff y claf ei weld y diwrnod hwnnw neu'r diwrnod canlynol. Fel arall bydd apwyntiadau yn cael eu rhoi fel bo'r lle.

System Ffôn – nid oes bwriad i newid hyn a bydd rhaid dod i arfer.

Presgripsiwn – ni chaiff unrhyw glaf ffonio drwodd am bresgripsiwn. Dywedodd y Meddyg mai Betsi Cadwaladr sydd wedi dod a'r rheol yma i rym.

Newidiadau i'r Feddygfa – ers i'r Rheolwr newydd gael ei benodi gwelwyd rhai newidadau.

Meddyg arall – nid ydynt yn chwilio am Feddyg arall ar hyn o bryd gan fod y Cynunlliad wedi torri i lawr ar yr arian ac felly nid oedd cyllideb i benodi unrhyw un arall.

Cyfarfodydd – mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda Betsi Cadwaladr a bellach mae rhai o'r Meddygfeydd yn cael eu cymryd drosodd gan y Bwrdd tra mae eraill yn cael eu rhedeg gan Gwmnïau preifat.

Galwadau allan o oriau – mae sôn erbyn hyn y bydd hyn yn cychwyn am 4.00 y.p. yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Oherwydd pwysau gwaith bu raid i'r Meddyg gwtogi ar y nifer o wyliau oedd yn ddyledus iddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

'Roedd Dr. Morris yn ddiolchgar am gael cyfarfod a'r Cyngor ac yn dymuno cael cyfarfod eto ymhen chwe mis.

Diolchwyd i Dr. Morris am ddod i'r cyfarfod ac am y wybodaeth gyflwynodd. Edrychir ymlaen at ei ymweliad eto ymhen chwe mis. Ymadawodd y Meddyg a'r cyfarfod.

Penderfynwyd anfon at Vaughan Gething, Ysgrifennydd Iechyd dros Gymru yn y Cynulliad yn tynnu sylw at y diffyg cyllid sydd ar gael i gynnal gwasanaeth yng nghefn gwlad Cymru a'r holl oblygiadau sy'n deillio o hynny.

79. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen.

80. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed RHAGFYR, 2016**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Rhagfyr, 2016.

MATERION YN CODI

a) Eitem 71 Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog

Cyflwynwyd adroddiad fod Y Cynghorydd Glyn Roberts wedi trafod gyda pherchennog y tir ac wedi cael ar ddeall fod yna ganiatad cynllunio i godi ty ar y cae ond nid oedd yn ei fwriad i wneud hynny ar hyn o bryd. Nid oedd ganddo wrthwynebiad i osod ffens ar yr amod nad oedd yn rhwystro mynediad i'w gae.

Anfonwyd y wybodaeth yma ymlaen i Dylan Wynn Jones, Rheolwr Tim Gwelliannau, Traffig, Rheolaeth Datblygu a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd a derbyniwyd ei ymateb ar 20fed Rhagfyr, 2016 yn hysbysu y byddai'r "gwaith yn cael ei wneud yn fuan yn y flwyddyn newydd."

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

b) Eitem 49 Cadarnhau Cofnodion – cymal (c) ... Arwyddion ARAF yn Sarn

Cyflwynwyd e-bost oddi wrth Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd, ar 9fed Ionawr, 2017, yn hysbysu eu bod "wedi cael cyfle i edrych i mewn i'r sefyllfa i weld os yw cyflwyno cyfyngiad cyflymder o 40 mya yn cydfynd gyda chanllawiau'r Llywodraeth mewn perthynas a chyflwyno cyfyngiadau cyflymder ar y rhwydwaith ffyrdd. Yn dilyn yr adolygiad hwn hoffwn eich hysbysu bod yr uned yn ystyried y mesur."

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

c) Eitem 73 – Materion Ffyrdd

(1) **Derbyniwyd** ymateb drwy e-bost gan Dylan Wynn Jones, Rheolwr Tim Gwelliannau, Cyngor Gwynedd ynglyn a'r isod gan mai cyfrifoldeb yr Adran Rheoleiddio yw'r materion hyn:

(1) “Yr allt i lawr o Tŷ Newydd am Neuadd Goffa, Sarn - rhaid i'r cerddwyr gerdded ynghanol y ffordd gan fod rhediad i lawr am y ffos ac o brofiad un rhiant os na cherddir ynghanol y ffordd gall pram droi drosodd (mae eisoes wedi cael profiad o'r fath). Hefyd mae tyllau yn y ffordd a all fod yn beryglus i blant a phobl - mae nifer o blant yn cerdded i lawr yr allt yma yn ddyddiol i gyfarfod y bysiau ysgol. - rwy'n gwerthfawrogi eich pryderon ynglŷn â diogelwch y ffyrdd a chais am lwybr troed. Yn anffodus nad oes gan y cyngor y cyllid i ariannu cynllun o'r fath ac mae rhaid iddynt rēl arfer ceisio am arian grant gan Lywodraeth Cymru am welliannau. I'r perwyl hyn, nai trefnu fod swyddog o'r adran hon yn ymweld ar safle i weld beth sy'n bosib gwneud gyda'r sefyllfa ac os oes modd gwella'r sefyllfa nawn ei ychwanegu ar ein rhestr cynlluniau posib ar gyfer bidiau posib yn y dyfodol.

(2) Gordyfiant ger Dyffryn Botwnnog - trefnaf fod archwiliwr gwaith stryd ymweld a'r safle ac os yw yn credu fod angen torri'r `Privets` mi fyddwn yn dilyn fyny gyda chamau gorfodaeth yn erbyn y tiffeddiannwr.”

Derbyniwyd hefyd ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor ynglyn a materion a anfonwyd i'w sylw ym mis Rhagfyr fel a ganlyn:

“Mae'r tyllau ger Ty'n Llan, Bryncroes a Phengopa wedi cael sylw. Mae'r gwaith o lanhau'r twll edrych ger Tanffordd, Penygroeslon, wedi ei ychwanegu ar raglen gwaith y gweithle.”

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(2) **Adroddodd** y Clarc nad oedd yn derbyn unrhyw ymateb i'w e-byst i Grwp Cynefin ynglyn a 'Stad Congl Meinciau.

Nodwyd y sylwad.

ch) Eitem 74 – MATERION IECHYD

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc iddi dderbyn galwad ffôn gan Mrs. Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. 'Roedd Mrs. Williams yn ymateb i'r llythyr anfonwyd gan y Cyngor yn datgan siom nad oedd unrhyw ohebiaeth yn cael ei gydnabod. Eglurodd Mrs. Williams ei bod adref yn wael ar y pryd ond byddai'n edrych i fewn i'r mater yn dilyn dechrau gweithio ac y byddai yn cysylltu a'r Cyngor.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

d) Eitem 76 – Adolygiad Etholiadol

Penderfynwyd fod Y Cynghorydd Carys H. Evans i gynrychioli'r Cyngor yn y cyflwyniad gan Gyngor Gwynedd yng Nghaernarfon ar 9fed Chwefror, 2017 – cyflwyniad gan y Comiswin Ffiniau ar yr adolygiad etholiadol.

81. CEISIADAU CYNLLUNIO

Nid oedd unrhyw gais i law.

82. MATERION FFYRDD

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:

Tyllau ar y ffordd sy'n arwain o benlon Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes.
Tyllau yn Lôn Ffolt, Bryncroes.

83. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol.

Penderfynwyd

a) Cyfrannu i'r rhai a ganlyn:
Adran yr Urdd Botwnnog £100
Y Groes Goch £ 25

b) Peidio cyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol Ryngwladol Llangollen.

84. PRAESEPT 2017/18

Cyflwynwyd

a) Adroddiad yr Is-bwyllgor gyfarfu yn gynharach ar y noson i drafod y materion ariannol.

“Cyfarfu yr Is-bwyllgor i edrych drwy'r llyfrau ac ystyried y sefyllfa ariannol am y flwyddyn ac i argymhell y gyllid ar gyfer 2017/18.

(Aelodaeth yr Is-bwyllgor Y Cyngorwyr S.R. Jones, Ifor Owen, Harry Richards a Glenys Williams).

Archwilwyd y llyfrau ac fe'u cafwyd yn gywir.

Gwelwyd fod y coffrau yn weddol gyfforddus a chymerwyd i ystyriaeth y posibilrwydd o orfod llenwi'r biniau graeanu petai'r angen, costau etholiadol petai etholiad yn un neu fwy o'r Wardiau. Nododd y Clarc hefyd ei bod wedi cysylltu a'r BDO ac wedi cael ar ddeall y byddai'r bil archwilio eleni yn £486.65 o'i gymharu a £175 y flwyddyn flaenorol.

Ystyriwyd hefyd y tendr barbio ac argymhellwyd fod y Cyngor yn symud yn ôl i'r trefniant blaenorol sef torri gwellt yn y Fynwent yn Llandegwning a Chomin Bryncroes bob tair wythnos o fis Ebrill i Hydref, 2017. Gwelwyd

nad oedd y toriad a wnaed y flwyddyn gyfredol wedi gweithio gan i'r Ymgymwrwr ofyn am yr hawl i dorri un toriad ychwanegol. Argymhellwyd i'r Cyngor yn wyneb fod arian teilwng wrth gefn i beidio codi'r braesept am y flwyddyn 2017/18."

- b) Llythyr oddi wrth Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gwahodd y Cyngor i gyflwyno eu praesept am y flwyddyn 2017/18.

Yn dilyn ystyried adroddiad yr Is-bwyllgor ac wedi cymryd i ystyriaeth yr oll oblygiadau ariannol **penderfynwyd** peidio codi'r braesept am eleni ond glynu at y ffigwr o £5,000.

Penderfynwyd ymhellach derbyn argymhelliad yr Is-bwyllgor fod y Cyngor yn gwahodd tendr barbio ar gyfer y Fynwent a'r Comin ac eu bod yn glynu at y drefn flaenorol sef torri bob tair wythnos o fis Ebrill hyd fis Hydref, 2017.

85. AWDURDOD I DALU

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyleus.

86. CWRS

Penderfynwyd awdurdodi'r Clarc i fynychu cwrs hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol – estynedig yn Neuadd Goffa, Penrhydeudraeth ar 2ail Chwefror, 2017.